



POLISI RHEOLI PERFFORMIAD

1. CYFLWYNIAD

Cyflwynir y polisi Rheoli Perfformiad hwn dan ofynion Rheoliadau Gwerthuso athrawon Ysgol (Cymru 2011) ac atgyfnerthir hynny ymhellach, gan Safonau Proffesiynol diwygiedig ar gyfer ymarferwyr addysg yng Nghymru (Medi 2011) a threfniadau Rheoli Perfformiad (2012).

Bwriad y broses Rheoli Perfformio, yw darparu dull strwythuredig o hybu a chynnal gwelliant addysgol. Gwneir hynny, drwy gysylltu datblygiad proffesiynol bob aelod o'r staff â blaenoriaethau'r ysgol a safonau addysgol uchel.

Mae'r ysgol yn gosod Rheoli Perfformio yng nghyd-destun nôd pob ysgol, o hybu safonau dysgu ac addysgu uchel. Yn fwy penodol, gwelir y broses o rheoli perfformiad fel arf i helpu'r ysgol i ddatblygu ymhellach drwy gefnogi a gwella gwaith athrawon fel unigolion, fel aelodau tîm, ac fel aelodau o gymunedau dysgu proffesiynol. Mae'r fframwaith yma wedi ei lunio ar gyfer athrawon ac arweinwyr tîm, er mwyn iddynt drafod a chytuno ar flaenoriaethau ac amcanion yng nghyd-destun cynlluniau datblygu'r ysgol. Mae'n canolbwyntio ar addysgu ac arweinyddiaeth fwy effeithiol er budd y disgyblion, yr athrawon eu hunain, ac yn rhinwedd hynny, yr ysgol gyfan.

2. NODAU A BWRIADAU


Mae rheoli perfformiad yn system adolygiad perfformiad blynyddol sy'n cynnwys trafodaeth broffesiynol am nodau a chyflawniadau rhwng athrawon a'u rheolwyr cyswllt a rhwng Y Pennaeth a'r Corff Llywodraethol.

Bydd rheoli perfformiad yn helpu'r ysgol i wella, drwy gefnogi a gwella gwaith athrawon fel unigolion, mewn timau ac fel aelodau o gymunedau dysgu proffesiynol. Mae'n gosod fframwaith i athrawon a'u rheolwyr cyswllt gytuno ar flaenoriaethau ac amcanion, a'u hadolygu yng nghyd-destyn cynlluniau datblygu'r ysgol. Mae canolbwyntio ar ran datblygiad proffesiynol, ac ar y gwaith addysgu ac arwain mwyaf effeithiol, er mwyn cael effaith cadarnhaol ar ddeilliannau dysgwyr, yr athrawon a'r ysgol.

3. SWYDDOGAETHAU

Rôl y Llywodraethwyr

- Rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau bod gwerthusiad cyntaf athro neu athrawes ysgol yn dechrau erbyn diwedd Ionawr.
- Cytuno â pholisi Rheoli Perfformio.





Rôl y Pennaeth

- Pennu Rheolwyr Cyswllt/ Gwerthuswyr
- Rhoi'r polisi ar waith
- Sicrhau fod y polisi yn weithredol
- Gofalu y caiff adolygiadau eu cynnal
- Llunio amserau priodol
- Cadw cofnod o broses Rheoli Perfformiad pob Athro
- Cadw datganiadau am dair blynedd
- Arfarnu'r polisi Rheoli Perfformio
- Cymryd rhan yn ei adolygiad ei hun
- Cytuno ar dargedau ar gyfer y Rheolwyr Cyswllt

Rôl y Rheolwyr Cyswllt (*Uwch Dîm Arwain*)

- Bod yn ddolen gyswllt rhwng y Arweinwyr Canol a'r Pennaeth
- Cynnal cyfarfod gydag Arweinywyr Canol lle maent yn cynllunio'r gwerthusiad
- Cytuno ar amcanion priodol gydag Arweinydd Canol unigol
- Cofnodi'r amcanion y cytunir arnynt mewn datganiad amcanion ysgrifenedig
- Cytuno ar y cymorth sydd ei angen ar yr Arweinydd Canol er mwyn bodloni'r amcanion
- Trafod a chytuno ar anghenion hyfforddiant-mewn-swydd
- Arsylwi'r Arweinwyr Canol unigol yn dysgu o leiaf unwaith mewn cylch
- Monitro'r broses a chynnig cefnogaeth drwy gydol y cylch gwerthuso
- Cynnal adolygiad gwerthuso, er mwyn-
 - asesu i ba raddau y mae'r Arweinwyr Canol wedi bodloni'r amcanion a gofnodwyd yn y datganiad amcanion
 - penderfynu a oes perfformiad cyffredinol llwyddiannus wedi bod a'i ystyried yn erbyn safonau proffesiynol athrawon (Medi 2011).
 - nodi'r angen am gymorth, hyfforddiant neu ddatblygiad ychwanegol a ffyrdd o ddiwallu'r anghenion hynny, gan gymryd i ystyriaeth hefyd gofnod yr athro.
- Ysgrifennu a chytuno ar ddatganiad adolygiad
- Cymryd rhan yn eu hadolygiadau nhw eu hunain
- Bod yn gymorth i'r Arweinwyr Canol trwy wrando a thrwy gynnig cyngor.

Rôl y Rheolwr Cyswllt (*Arweinwyr Canol*)

- Cynnal cyfarfod gyda'r athro lle maent yn cynllunio'r gwerthusiad ac yn cytuno ar amcanion
- Cytuno ar amcanion priodol gyda phob athro unigol
- Cofnodi'r amcanion y cytunir arnynt mewn datganiad amcanion ysgrifenedig
- Cytuno ar y cymorth sydd ei angen ar yr athro er mwyn bodloni'r amcanion
- Arsylwi'r athrawon unigol yn dysgu o leiaf unwaith
- Cytuno ar y gweithdrefnau ar gyfer monitro perfformiad yr athro
- Monitro'r broses a chynnig cefnogaeth drwy gydol y cylch gwerthuso
- Cynnal adolygiad gwerthuso, er mwyn-



- asesu i ba raddau y mae'r athro wedi bodloni'r amcanion a gofnodwyd yn y datganiad amcanion
- penderfynu a oes perfformiad cyffredinol llwyddiannus wedi bod o'i ystyried yn erbyn safonau proffesiynol athrawon (Medi 2011)
- nodi'r angen am gymorth, hyfforddiant neu ddatblygiad ychwanegol a ffyrdd o ddiwallu'r anghenion hynny, gan gymryd i ystyriaeth hefyd cofnod yr athro.
- Ysgrifennu a chytuno ar ddatganiad adolygiad
- Cymryd rhan yn eu hadolygiadau hwy eu hunain.

Rôl yr Athro

- Mynychu cyfarfod â'r athro rheolwr cyswllt lle maent yn cynllunio'r gwerthusiad ac yn cytuno ar amcanion neu'n eu pennu
- Cytuno ar y cymorth y mae ei angen arno er mwyn bodloni'r amcanion
- Cadw cofnod cyfoes o'r canlynol-
 - asesiad ei hun o berfformiad yn erbyn yr amcanion a gofnodwyd yn y datganiad amcanion;
 - manylion unrhyw weithgareddau datblygu proffesiynol yr ymgwymerwyd â hwy neu gymorth arall a roddwyd a sut mae hynny'n cyfrannu at gyflawni'r amcanion;
 - manylion unrhyw ffactorau y mae'n credu eu bod yn effeithio ar y perfformiad yn erbyn yr amcanion a gofnodwyd
- Mynychu cyfarfod adolygiad gwerthuso
- Cael eu harsylwi yn dysgu o leiaf unwaith mewn cylch.


Rôl Cynorthwywyr Dysgu/Staff Atodol

- Mynychu cyfarfod rhwng y rheolwr cyswllt a'r gweithiwr lle maent yn cynllunio'r gwerthusiad ac yn cytuno ar amcanion neu'n eu pennu
- Cytuno ar y cymorth y mae ei angen arno er mwyn bodloni'r amcanion
- Cadw cofnod cyfoes o'r canlynol -
 - manylion unrhyw weithgareddau datblygu proffesiynol yr ymgwymerwyd â hwy neu gymorth arall a roddwyd ar sut mae hynny'n cyfrannu at gyflawni'r amcanion;
 - manylion unrhyw ffactorau y mae'n credu eu bod yn effeithio ar y perfformiad yn erbyn yr amcanion a gofnodwyd.
- Mynychu cyfarfod adolygiad gwerthuso

4. Y CYLCH RHEOLI PERFFORMIO

Mae'r cylch rheoli perfformiad yn cynnwys 5 cam, sef :-

- Cam 1 - Cynllunio a Pharatoi amcanion
- Cam 2 - Monitro cynnydd
- Cam 3 - Yr adolygiad gwerthuso a'r datganiad gwerthuso
- Cam 4 - Darparu datganiadau gwerthuso a'u cadw
- Cam 5 – Gwerthuso perfformiad yn ol targed meintiol.





1. Rhaid i'r Pennaeth benderfynu amseriad cylch gwerthuso bob athro ac athrawes ysgol yn yr ysgol.
2. Ac eithrio rhai amgylchiadau, blwyddyn fydd hyd cylch gwerthuso.
3. Pan fyddant wedi dechrau, bydd cylchoedd gwerthuso bob athro ac athrawes ysgol yn barhaus.
4. Ni fydd penodi rheolwr cyswllt newydd yn effeithio cylch gwerthuso athro neu athrawes ysgol ac yn dechrau eto.
5. Mae rhaid ystyried anghenion datblygiad proffesiynol unigol a pherfformiad athrawon.

Amserlen y cylch.

Cynllunio	Mehefin	Y Pennaeth i benodi rheolwyr cyswllt (gwerthuswyr)
	Medi	Cylch Rheoli Perfformiad yn dechrau Hunan – ddadansoddiad gan yr athro unigol (<i>ffurflen A</i>)
	Hydref	Cynnal cyfarfod cynllunio.
		i. Gosod amcanion rhwng yr athro a rheolwr cyswllt. ii. Cytundeb ynghylch y drefn yn ystod cwrs y flwyddyn a <i>ffurflen B</i> (pennu amcanion) yn cael ei gyflwyno i'r Pennaeth
Monitro	Tachwedd - Mawrth	Cyfnod cyflawni amcanion/ datblygiad proffesiynol gan athro unigol a monitro gan rheolwr cyswllt.
		i. Arsylwi yn yr ystafell ddosbarth o leiaf ar un achlysur yn ystod yn cyfnod cyflawni (<i>ffurflen C</i>)
		ii. Ffynonellau eraill o dystiolaeth y cytunir arnynt sy'n briodol i rôl yr athro
Adolygu	Mai	Hunanfyfyrto gan yr athro mewn perthynas ag amcanion a pharatoi ar gyfer cyfarfod adolygu (<i>ffurflen CH</i>)
	Mehefin	Cyfarfod adolygu perfformiad rhwng athro unigol a rheolwr cyswllt (<i>ffurflen D</i>)
	Gorffennaf	Athro unigol yn cyflwyno Portffolio i'r Pennaeth.
	Medi	Gerthusio perfformiad yn ol targed meintiol

Cynllunio a Pharatoi amcanion

1. Cyn i'r cylch rheoli perfformiad ddechrau, rhaid i'r rheolwr cyswllt a'r athro gyfarfod er mwyn cynllunio'r gwerthusiad a pharatoi ar ei gyfer a cheisio cytuno ar amcanion yr athro. Y mae'n rhaid iddynt gymryd i ystyriaeth unrhyw dystiolaeth berthnasol y bydd y gwerthuswr a'r athro yn cytuno arni ond a fydd yn cynnwys y Wybodaeth am Berfformiad Disgyblion, ac y maen rhaid iddynt ymwneud â'r canlynol-


Nid da lle gellir gwel



- (a) datblygu a gwella arferion proffesiynol yr athro neu'r athrawes ysgol;
 - (b) disgrifiad swydd yr athro neu'r athrawes ysgol;
 - (c) unrhyw feini prawf perthnasol ynghylch datblygiad cyflog;
 - (ch) unrhyw amcanion perthnasol i'r ysgol gyfan neu i'r adran a amlinellwyd yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol neu Gynllun Datblygu Adran
 - (d) safonau proffesiynol athrawon (Medi 2011)
2. Disgwylir y bydd amcanion yr athro a amlinellwyd uchod yn cymryd hefyd i ystyriaeth -
 - (a) ddyheadau proffesiynol yr athro neu'r athrawes ysgol
 - (b) unrhyw flaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gwella ysgolion.
 3. Bydd amcanion yr athro neu'r athrawes ysgol yn cyfrannu, o'u cyflawni, at wella cynnydd disgyblion yr ysgol.
 4. Pan fo'r amcanion wedi'u pennu, rhaid i'r rheolwr cyswllt a'r athro gytuno ar y cymorth / datblygiad proffesiynol y mae ar yr athro ei h/angen er mwyn bodloni'r amcanion.
 5. Os na ellir cytuno, y rheolwr cyswllt fydd yn penderfynu ar y cymorth y mae ei h/angen.
 6. Yn ystod y cylch gwerthuso, rhaid i'r athro gadw cofnod cyfoes o'r canlynol-
 - (a) asesiad yr athro neu'r athrawes ysgol ei hun o berfformiad yn erbyn yr amcanion a gofnodwyd yn y datganiad amcanion;
 - (b) manylion unrhyw weithgareddau datblygu proffesiynol yr ymgwymerwyd â hwy, neu gymorth arall a roddwyd a sut mae hynny'n cyfrannu at gyflawni'r amcanion;
 - (c) manylion unrhyw ffactorau y mae'r athro neu'r athrawes ysgol yn credu eu bod yn effeithio ar y perfformiad yn erbyn yr amcanion a gofnodwyd.

Cam 2 - Monitro cynnydd

1. Rhaid i'r rheolwr cyswllt a'r athro mewn cyfarfod a gynhelir geisio cytuno ar y gweithdrefnau ar gyfer monitro perfformiad yr athro yn erbyn yr amcanion y cytunir arnynt, neu'r Pennaeth yn amlinellu gweithdrefnau monitro/cysgodi gwersi ar ddechrau cylch rheoli perfformiad.
2. Rhaid i'r gweithdrefnau y cytunir arnynt gynnwys gofyniad bod rhaid i'r rheolwr cyswllt, wrth iddo werthuso athro neu athrawes ysgol, arsylwi ar yr athro neu'r athrawes ysgol yn addysgu o leiaf unwaith yn ystod y cylch gwerthuso.
3. Yn ychwanegol at arsylwadau gwersi, gellir cynnwys ffynonhellau eraill o dystiolaeth, gan gynnwys:
 - Tystiolaeth craffu ar lyfrau/ffeiliau dysgwyr
 - Gwaith cartref a'i farcio
 - Prosesau asesu, safoni a chroes farcio






- Taflenu asesu/hunan asesu.
- Cofnodion datblygiad proffesiynol athro
- Tystiolaeth/deilliannau Cymunedau Dysgu Proffesiynol
- Adborth wrth ddysgwyr, rhieni ac ymweliadau llywodraethwyr

Cam 3 - Yr adolygiad gwerthuso a'r datganiad gwerthuso

1. Ar ddiwedd y cylch rheoli perfformiad neu yn agos at ddiwedd y cylch gwerthuso, rhaid i'r rheolwr cyswllt a'r athro gynnal adolygiad gwerthuso, er mwyn-
 - (a) asesu i ba raddau y mae'r athro wedi bodloni'r amcanion a gofnodwyd yn y datganiad amcanion, gan gymryd i ystyriaeth y cofnod y mae'n rhaid i'r athro
 - (b) penderfynu a oes perfformiad cyffredinol llwyddiannus wedi bod o'i ystyried yn erbyn safonau proffesiynol athrawon ysgol
 - (c) nodi'r angen am gymorth, hyfforddiant neu ddatblygiad ychwanegol a ffyrdd o ddiwallu'r anghenion hynny, gan gymryd i ystyriaeth hefyd cofnod yr athro.
2. Bydd y dyddiad y mae adolygiad gwerthuso i'w gynnal yn cael ei benderfynu gan y rheolwr cyswllt, ond rhaid rhoi o leiaf 10 diwrnod ysgol o rybudd (mewn ysgrifen) i'r athro am y dyddiad hwnnw.
3. Cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl pob adolygiad gwerthuso, rhaid i'r rheolwr cyswllt baratoi datganiad ysgrifenedig yn cofnodi'r prif bwyntiau a wnaed gan y rheolwr cyswllt a'r athro yn yr adolygiad a'r casgliadau y daethpwyd iddynt, a rhaid cofnodi mewn atodiad i'r datganiad (sef atodiad a fydd yn rhan o'r datganiad), yr anghenion hyfforddi a datblygu a ffyrdd o ddiwallu'r anghenion hynny a nodwyd yn yr adolygiad.
4. Rhaid i'r rheolwr cyswllt gyflwyno copi o'r datganiad i'r athro cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl yr adolygiad gwerthuso.
5. Caiff yr athro, cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl cael copi o'r datganiad hwnnw, ychwanegu sylwadau ysgrifenedig ato, a bydd y sylwadau hynny yn rhan o'r datganiad a pharatoi.
6. Mae gan yr athro'r hawl i apelio yn erbyn gwerthusiad cyn pen 10 diwrnod ysgol ar ôl cael copi o ddatganiad gwerthuso.





Cam 4 - Darparu datganiadau gwerthuso a'u cadw

1. Rhaid i'r rheolwr cyswllt roi copi o'r datganiad gwerthuso i'r Pennaeth (fel rhan o'r portffolio rheoli perfformiad)
2. Os yw'r athro neu'r athrawes ysgol yn gymwys ar gyfer datblygiad cyflog o dan y Ddogfen, rhaid i'r rheolwr cyswllt roi argymhelliad ynghylch datblygiad cyflog i'r Pennaeth, gan roi sylw i ddatganiad gwerthuso'r athro neu'r athrawes ysgol.
3. Rhaid i'r Pennaeth roi copi o'r atodiad i'r datganiad gwerthuso i'r person neu'r personau sy'n gyfrifol am gynllunio hyfforddiant a datblygiad yr athrawon ysgol yn yr ysgol.
4. Rhaid i ddatganiad gwerthuso athro neu athrawes ysgol gael ei gadw gan y Pennaeth am o leiaf dair blynedd ar ôl i'r datganiad gwerthuso nesaf gael ei gwblháu.

Gwybodaeth o ddatganiadau gwerthuso

- Caniateir i wybodaeth berthnasol o ddatganiadau gwerthuso gael ei chymryd i ystyriaeth amrywiaeth o arweinwyr perthnasol ynghylch dyrchafu, diswyddo neu ddisgyblu athrawon ysgol neu ynghylch arfer unrhyw ddisgresiwn mewn perthynas â thâl.
- Ni fydd gweithdrefnau gwerthuso mewn perthynas ag athro neu athrawes ysgol fel y'i disgrifir yn y Rheoliadau hyn, yn ffurfio unrhyw gamau y mae'n rhaid eu cymryd mewn gweithdrefnau disgyblu neu ddiswyddo a ddygir yn erbyn yr athro neu'r athrawes ysgol.

5. PORTFFOLIO RHEOLI PERFFORMIAD

- Dosberthir ffeil i bob aelod o'r staff. Bydd y ffeil yn egluro'r cylch arfarnu gam wrth gam gan fanylu ar ei holl brosesau. Dylai'r portffolio gynnwys y wybodaeth ganlynol:
 - Swydd ddisgrifiad
 - Datganiad amcanion ysgrifenedig
 - Y rhaglen arfarnu/ gweithdrefnau monitro
 - Taflen hunan ddadansoddiad
 - Taflen fonitro cynnydd/ arsylwi gwersi
 - Taflen Hunanfyfyrion
 - Datganiad Gwerthuso
 - Ffynonellau eraill o dystiolaeth gan gynnwys crynodeb o ddatblygiad proffesiynol Parhaus.




6. APELIADAU

1. Mae gan yr athro'r cyfle i apelio yn erbyn y datganiad gwerthuso os yw'r athro yn anfodlon ag elfennau o'r gwerthusiad.
2. Mae'n rhaid apelio yn erbyn y datganiad gwerthuso o fewn 10 diwrnod ysgol i dderbyn y datganiad ac mae'n rhaid ei gyflwyno'n ysgrifenedig i'r corff llywodraethu.
3. Yna, bydd swyddog apêl yn cael ei benodi i gynnal adolygiad apêl. Os bydd apêl gan athro, fel arfer y pennaeth fydd y swyddog apêl heblaw bod y Pennaeth wedi cymryd rhan yn y cyfryw adolygiad.
4. Cynhelir yr adolygiad apêl o fewn 10 diwrnod ysgol i'r swyddog apêl dderbyn y datganiad gwerthuso.
5. Wrth gynnal adolygiad apêl, mae'n rhaid i'r swyddog neu swyddog apêl, ystyried unrhyw sylwadau a wneir gan yr athro.
6. Ar ôl rhoi ystyriaeth briodol, gall y swyddog apêl:
 - a. benderfynu bod y gwerthusiad wedi'i gynnal yn foddhaol (a gall wneud sylwadau);
 - b. ddiwygio'r datganiad gwerthuso os yw'r gwerthuswr yn cytuno;
 - c. orchymyn cynnal adolygiad newydd.
7. Os gorchmynnir gwerthusiad newydd, mae'n rhaid penodi gwerthuswr newydd ac mae'n rhaid i'r swyddog apêl benderfynu pa weithdrefnau apêl sy'n rhaid eu cynnal eilwaith.
8. Os yw'n ymddangos i'r swyddog apêl nad oes gwerthuswr newydd addas y gellir ei benodi, mae'n rhaid i'r swyddog apêl benodi aelod o gorff llywodraethu'r ysgol fel gwerthuswr newydd ar gyfer yr athro.

7. MYNEDIAD I GANLYNIADAU

1. Dim ond dau gopi o'r datganiad adolygu fydd - un a gedwir gan yr athro/athrawes a'r llall a gedwir gan y Pennaeth mewn ffeil ganolog.
2. Dylai'r Pennaeth sicrhau y caiff anghenion hyfforddi a datblygu unigol eu hadlewyrchu yng nghynllun datblygu'r ysgol a'r rhaglen datblygu proffesiynol.
3. Dylai gwybodaeth am adolygiadau perfformiad fod ar gael fel y rhestrir:





- Dylai'r Pennaeth roi copi a'r atodiad (mewn perthynas ag anghenion hyfforddi a datblygu) i'r person sy'n gyfrifol am hyfforddiant a datblygiad yn yr ysgol.
- Mae'n rhaid rhoi copi o'r datganiad arfarnu a'r datganiad o amcanion ar gyfer y cylch rheoli perfformiad i unrhyw swyddog apel.
- Lle y penodir arweinydd tîm newydd (neu lywodraethwr newydd i adolygu'r Pennaeth) ac eithrio ar ddechrau'r cylch rheoli perfformiad, mae'n rhaid rhoi copi o'r datganiad o amcanion presennol a thâl.
- Gall yr Awdurdod Addysg Lleol ofyn am grynodedb o adran asesu perfformiad datganiad adolygu'r Pennaeth gan Gadeirydd y Llywodraethwyr.

8. GWERTHUSO'R POLISI

1. Bydd y Pennaeth yn adrodd yn flynyddol i'r Corff Llywodraethol am weithdrefnau Rheoli Perfformiad yr ysgol gan gynnwys effeithiolrwydd y broses a anghenion hyfforddi yr athrawon a'r Pennaeth.
2. Bydd y Pennaeth yn adolygu polisi Rheoli Perfformiad bob blwyddyn ysgol ac yn ei ddiwygio os oes angen yn eu barn hwy. Cyn diwygio'r polisi Rheoli perfformiad, bydd y Corff Llywodraethol yn sicrhau yr ymgynghorir â phob aelod o'r staff, er mwyn sicrhau bod y polisi yn gyfredol ac yn effeithiol yn ein hysgol.

Diweddarwyd:	
Derbyniwyd gan y Corff Llywodraethol:	
Llofnod y Cadeirydd:	